



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

Cylchlythyr

1. Canllawiau ar Reoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013

Trosolwg

2. Cafodd Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/747 (Cy.89)) eu gwneud ar 26 Mawrth 2013 gan ddod i rym ar ddyddiadau amrywiol fel y nodir yn y Rheoliadau, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau trosiannol a nodir isod.
3. Gwnaed y diwygiadau gan Weinidogion Cymru gan arfer y pwerau a nodir yn Neddf Adeiladu 1984.
4. Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, cafodd y rheoliadau diwygio hyn eu gwneud ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cyngori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac unrhyw gyrff eraill yr ymddengys eu bod yn cynrychioli'r buddiannau dan sylw; roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad agored.
5. Mae'r rheoliadau hyn yn deddfu, lle bo angen, ofynion Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2010/31/EU, dyddiedig 19 Mai 2010, ar berfformiad ynni adeiladau (ail-lunio) ("y Gyfarwyddeb").
6. Mae'r diwygiadau hyn yn gymwys i Reoliadau Adeiladu 2010 (O.S. 2010/2214) ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215) ("y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy").

Cyflwyniad

7. Diben y Cylchlythyr hwn yw:
 - Tynnu sylw at y diwygiadau hyn ac egluro sut y maent yn newid y Rheoliadau Adeiladu a'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy;
 - Egluro'r darpariaethau trosiannol;
 - Cyhoeddi'r diwygiadau i Ran L y Ddogfen Gymeradwy;
 - Cyhoeddi trefniadau i awdurdodi cynlluniau personau cymwys newydd ac estynedig.
8. Nid yw'r Cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar ofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu oherwydd caiff y materion hyn eu trafod yn y Dogfennau Cymeradwy.

9. Mae Atodiad A a B i'r Cylchlythyr hwn yn crynhoi'r holl newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau Adeiladu a'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy gan OS 2013/747 (Cy. 89) ar ffurf tabl.

Cymhwyso'r Rheoliadau

10. Mae'r newidiadau a wneir drwy'r diwygiadau hyn yn gymwys yng Nghymru, ond nid ydynt yn gymwys i'r canlynol:

- adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru;
- adeiladau addysgol ac adeiladau ymgymrwyr statudol yng Nghymru;
- adeiladau'r Goron yng Nghymru;
- gwaith adeiladu a gyflawnir gan awdurdodau'r Goron yng Nghymru.

Rheoli Gwaith Adeiladu

11. Mae rheoliad diwygio 4 yn diwygio rheoliad 11 o'r Rheoliadau Adeiladu drwy ychwanegu rhagor o feysydd lle na all yr awdurdod lleol lacio gofynion rheoliadau adeiladu. Ymhlith y rhain mae:

- rheoliad 23 (1)(a) lle mae adnewyddu elfen thermol yn golygu gwaith adnewyddu mawr;
- rheoliad 25A sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried systemau amgen tra effeithlon;
- rheoliad 25B sy'n ei gwneud yn ofynnol i adeiladau newydd fod bron yn ddi-ynni;
- rheoliad 26, sy'n delio â chyfraddau allyriadau carbon deuocsid;
- rheoliad 29 mewn perthynas â thystysgrifau perfformiad ynni (ac eithrio gofynion y Fargen Werdd);
- rheoliad 29A sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu adroddiadau argymhellion

(diwygiwyd neu mewnosodwyd y rhain i gyd gan O.S. 2013.747).

12. Mae rheoliad diwygio 5 yn diwygio rheoliad 14(5) o'r Rheoliadau Adeiladu drwy ddileu'r angen i ofyn am dystysgrif gwblhau gan y corff rheoli adeiladu. Mae rheoliadau diwygio 8 yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu tystysgrif gwblhau bob tro y mae'n fodlon bod y gwaith adeiladu yn cyrraedd y safonau gofynnol.

13. Mae rheoliad diwygio 6 yn ddiwygiad canlyniadol i reoliad 15(2)(b) o Reoliadau 2010.
14. Mae rheoliad diwygio 7 yn diwygio rheoliad 16(5) o'r Rheoliadau Adeiladu fel mai dim ond os yw'r adeilad dan sylw yn ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, neu y bydd yn ddarostyngedig iddo ar ôl ei gwblhau, y bydd angen hysbysiad o fwriad i feddiannu'r adeilad. Mae rheoliad diwygio 9 yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu gan gyflwyno rheoliad newydd, sef rheoliad 17A, i awdurdodau lleol ddarparu tystysgrifau cwblhau mewn perthynas ag adeiladau lle mae rhan o'r adeilad neu'r adeilad i gyd yn ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod y gwaith yn cydymffurfio â rheoliad 38 a Rhan B o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Adeiladu, os cânt eu meddiannu cyn i'r gwaith gael ei gwblhau.
15. Mae rheoliad diwygio 10 yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu gan fewnosod rheoliad newydd 17A lle caiff gwaith ei oruchwylio gan gorff arall ac eithrio awdurdod lleol.

Cynlluniau Hunanardystio Personau Cymwys

16. Mae rheoliad diwygio 11 yn diwygio rheoliad 20 o'r Rheoliadau Adeiladu gan ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiadau a'r tystysgrifau a ddarperir gan osodwr cofrestredig, o dan y cynllun hunanardystio personau cymwys perthnasol, nodi pa un a dalwyd am y gwaith, neu ran o'r gwaith, gan ddefnyddio un o gynlluniau'r Fargen Werdd.
17. Mae'r diwygiad hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol storio, ar ffurf adferadwy, yr hysbysiadau a'r tystysgrifau a roddir iddynt.
18. Mae rheoliad diwygio 21 yn awdurdodi gweithredwr cynllun personau cymwys newydd at ddibenion profi pwysedd adeiladau newydd.
19. Mae rheoliad diwygio 24(2)(a a b) yn newid enw dau weithredwr cynllun yng ngholofn 2 o Atodlen 3, er mwyn adlewyrchu enw cofrestredig newydd y gweithredwr cynllun ar ôl i'r ddau sefydliad uno.
20. Mae rheoliad diwygio 24(2)(c a d) yn newid enw un gweithredwr cynllun yng ngholofn 2 o Atodlen 3, er mwyn adlewyrchu newid i'r enw cofrestredig.
21. Mae rheoliad diwygio 24(2)(e) yn lleihau'r awdurdodiad ar gyfer un gweithredwr cynllun yng ngholofn 2 o Atodlen 3, mewn perthynas â'r mathau o waith y mae'r gweithredwr yn eu cyflawni ar hyn o bryd o fewn y cynlluniau personau cymwys.
22. Mae rheoliadau diwygio 24(2)(f)-(p) yn ymestyn yr awdurdodiad i nifer o weithredwyr cynlluniau presennol yng ngholofn 2 o Atodlen 3, mewn

perthynas â mathau o waith nad oedd ganddynt awdurdod i'w cyflawni yn flaenorol.

23. Mae rheoliad diwygio 26 yn cyflwyno tri math newydd o waith yng ngholofn 1 o Atodlen 3 y mae gweithredwyr cynlluniau wedi cael eu hawdurdodi i'w cyflawni. Mae'r rheoliad diwygio hwn hefyd yn awdurdodi nifer o weithredwyr cynlluniau presennol yng ngholofn 2 o Atodlen 3 i gyflawni'r mathau newydd o waith.
24. Mae rheoliadau diwygio 24 a 27 yn hepgor y testun canlynol o golofn 2 o Atodlen 3, "(in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)" ac "(other than in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)", fel y'i mewnosodwyd gan Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) 2012 (O.S. 2012/718) a Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) 2012 (O.S. 2012/3119). Caiff y testun dan sylw ei hepgor er mwyn osgoi creu unrhyw ddryswch posibl i'r darllynydd.
25. Mae rheoliadau diwygio 24(1) a 27 yn gwneud rhagor o fân ddiwygiadau i Atodlen 3 i'r Rheoliadau Adeiladu.
26. Mae rheoliad diwygio 25 yn hepgor paragraff 20 o'r Atodlen. Mân ddiwygiad yw hwn ac fe'i gwneir o ganlyniad i reoliad diwygio 24(1).
27. Mae rheoliad diwygio 28 yn ddiwygiad canlyniadol i Atodlen 4 o'r Rheoliadau Adeiladu.

Statws Tystiolaethol Tystysgrifau Cydymffurfiaeth

28. Mae rheoliadau diwygio 8, 9 ac 11 yn cyflwyno gofyniad i'r Rheoliadau Adeiladu sy'n datgan bod yn rhaid i dystysgrifau cwblhau y mae'r diwygiadau yn berthnasol iddynt, nodi eu statws tystiolaethol.

Cymhwyso Gofynion Effeithlonrwydd Ynni

29. Mae rheoliadau diwygio 13, 15, 16 a 17 yn trosi gofynion Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2010/31/EU, dyddiedig 19 Mai 2010, ar berfformiad ynni adeiladau (ail-lunio) mewn perthynas â gwaith adnewyddu mawr i adeiladau presennol, ystyried systemau amgen tra effeithlon ar gyfer adeiladau newydd, gofynion bron di-ynni ar gyfer adeiladau newydd, dystysgrifau perfformiad ynni ac adroddiadau argymhellion.
30. Mae rheoliadau 3, 12, 14, 18, 19, 20, 22 a 23 yn ddiwygiadau canlyniadol sy'n deillio o drosi'r Gyfarwyddeb.

Diwygiadau i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010

31. Mae rheoliad diwygio 31 a 33 yn cyflwyno gofynion i'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy sy'n golygu bod yn rhaid i'r tystysgrifau terfynol a roddir gan arolygydd cymeradwy nodi eu statws tystiolaethol.
32. Mae rheoliadau diwygio 29, 30 a 32 yn ddiwygiadau canlyniadol sy'n deillio o drosi'r Gyfarwyddeb.

Darpariaethau Trosiannol

33. Mae rheoliadau diwygio 34 i 36 yn nodi'r darpariaethau trosiannol cymwys. Nid oes darpariaethau trosiannol ar gyfer y rhan fwyaf o'r rheoliadau diwygio hyn ac yn y cyfryw achosion, bydd y ddarpariaeth yn gymwys o'r dyddiad y daw'r rheoliad i rym.
34. Fodd bynnag, mae darpariaethau trosiannol yn gymwys i reoliadau diwygio 7, 13 a 15 sy'n golygu na fyddai angen i'r rhai sy'n gwneud gwaith adeiladu gydymffurfio â'r diwygiadau a wneir gan y rheoliadau hyn ar yr amod bod y gwaith adeiladu wedi dechrau o fewn amser penodedig.

Newidiadau i Ddogfennau Cymeradwy

35. Mae Dogfennau Cymeradwy yn rhoi canllawiau statudol ar gymhwyso'r Rheoliadau Adeiladu a chydymffurfio â hwy. Mae slip diwygio, "*Amendments to the Approved Document Part L*", yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cylchlythyr hwnnw. Mae'r slip diwygio hwn yn amlinellu'r diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy L1A, L1B, L2A a L2B.
36. Mae hysbysiad cymeradwyo ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy yn Atodiad C.
37. Mae copi electronig o "Amendment to the Approved Document Part L" ar gael o www.planningportal.gov.uk a www.wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?lang=cy

Cyngor Pellach

38. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y Cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Rheoliadau Adeiladu
Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8144

E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk

Atodiad A

Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/747 (Cy.89))

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wneir gan O.S. 2013/747 (W.89) i Reoliadau Adeiladu 2010:

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
--	2	Diwygiad i Reoliadau Adeiladu 2010. Yn cyflwyno'r diwygiad i'r rheoliadau adeiladu.
2(1)	3(a)	Dehongliad. Yn egluro'r diffiniad o "energy efficiency requirements".
2(1)	3(b)	Dehongliad. Yn mewnosod diffiniad o "energy performance certificate".
2(1)	3(c)	Dehongliad. Yn diwygio'r diffiniad o "fixed building services".
11(3)	4	Y pŵer i hepgor neu lacio gofynion. Heb gynnwys pŵer awdurdodau lleol i lacio gofynion y rheoliadau adeiladu mewn perthynas â rheoliadau sy'n trosi gofynion Cyfarwyddeb 2010/31/EU.
14(5)	5	Planiau Llawn. Yn dileu'r angen i ofyn am dystysgrif gwblhau wrth gyflwyno planiau llawn.
15(2)(b)	6	Ymgynghori ag ymgymrwyr carthffosiaeth. Yn dileu'r cyfeiriad at reoliad 14(5) ac yn mewnosod cyfeiriad at reoliad newydd 17A.
16(5)	7	Hysbysiad cychwyn a thystysgrifau cwblhau. Yn diwygio'r gofyniad fel mai dim ond os yw'r adeilad dan sylw yn ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, neu y bydd yn ddarostyngedig iddo ar ôl ei gwblhau, y bydd angen rhoi hysbysiad o fwriad i feddiannu'r adeilad.
17(1 i 3)	8(a)	Tystysgrifau cwblhau. Yn diwygio'r gofyniad i dystysgrifau gael eu rhoi ar gais ac yn cyflwyno gofyniad i dystysgrifau gael eu rhoi o fewn amser penodedig os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod y gwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.
17(4)	8(b)	Tystysgrifau cwblhau. Yn mewnosod

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
		gofyniad i dystysgrifau cwblhau gynnwys y geiriad ar eu statws tystiolaethol.
Rheoliad Newydd 17A	9	Tystysgrifau ar gyfer adeiladau a feddiannir cyn i waith gael ei gwblhau. Yn cyflwyno gofyniad newydd i awdurdodau lleol ddarparu tystysgrifau cwblhau mewn perthynas ag adeiladau lle mae rhan o'r adeilad neu'r adeilad i gyd yn ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod y gwaith yn cydymffurfio â rheoliad 38 a Rhan B o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Adeiladu, os cânt eu meddiannu cyn i'r gwaith gael ei gwblhau.
19(1)	10	Goruchwylio gwaith adeiladu ac eithrio gan awdurdodau lleol. Yn mewnosod 17A.
20(3)(b)(ii)	11(a)	Darpariaethau sy'n gymwys i gynlluniau hunanardystio. Yn mewnosod gofyniad newydd i awdurdodau lleol storio, ar ffurf adferadwy, gopiâu o'r hysbysiadau a'r tystysgrifau a roddir iddynt. Yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiadau a'r tystysgrifau gynnwys gwybodaeth am gynllun y fargen werdd ac yn diffinio "green deal plan".
20(4)	11(b)	Darpariaethau sy'n gymwys i gynlluniau hunanardystio. Yn mewnosod gofyniad newydd i dystysgrifau cwblhau gynnwys geiriad ar eu statws tystiolaethol.
21(5)	12	Cymhwyso gofynion effeithlonrwydd ynni. Yn diweddarau'r cyfeiriad at Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2010/31/EU, dyddiedig 19 Mai 2010, ar berfformiad ynni adeiladau (ail-lunio).
23	13	Gofynion sy'n ymwneud ag elfennau thermol. Yn darparu teitl newydd, sef "Requirements for the renovation or replacement of thermal elements", ac yn egluro'r gofynion er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
2	14	Y gofynion perfformiad ynni sylfaenol ar gyfer adeiladau newydd. Yn rhoi "set in accordance with" yn lle "based upon". Diwygiad technegol yw hwn i egluro'r gyfraith.
Rheoliad Newydd 25A	15	Ystyried systemau amgen tra effeithlon ar gyfer adeiladau newydd. Yn cyflwyno gofyniad i ddadansoddi hyfywedd systemau amgen tra effeithlon.
Rheoliad Newydd 25B	15	Gofynion bron di-ynni ar gyfer adeiladau newydd. Yn mewnosod gofyniad ar gyfer adeiladau sydd bron yn ddi-ynni.
29(1)	16(a) a (c)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn cadarnhau'r geiriad.
29(1)	16(b)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn mewnosod y gofyniad am adroddiadau argymhellion ac yn rhoi eglurhad o ddilysrwydd tystysgrif perfformiad ynni.
29(5)	16(d)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn dileu rheoliad 29(5).
Cymal newydd 29(8)	16(e)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn mewnosod hawl i dystysgrifau gael eu seilio ar asesiad o adeilad cynrychioliadol arall sy'n debyg o ran dyluniad, maint ac ansawdd perfformiad ynni.
Cymal newydd 29(9)	16(e)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn mewnosod eglurhad o ddilysrwydd tystysgrif perfformiad ynni.
Cymal newydd 29(10)	16(e)	Tystysgrifau perfformiad ynni. Yn mewnosod gofyniad na ddylai tystysgrifau gynnwys gwybodaeth na data a all ddatgelu pwy yw unigolyn byw.
Rheoliad Newydd 29A	17	Adroddiadau argymhellion. Yn mewnosod ystyr, diffiniad a gofynion ar gyfer "recommendation reports".
30(3)	18(a)	Aseswyr ynni. Yn amnewid paragraff (3)(g) i'w gwneud yn ofynnol i gofnodi data ychwanegol mewn adroddiadau ac ar y gofrestr berthnasol.
30(4)	18(b)	Aseswyr ynni. Yn diweddarau'r cyfeiriad at Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr)

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
		2012.
33	19	Hawl i gopïo dogfennau. Yn diweddarau'r cyfeiriad at Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012.
35(1)	20	Dehongli Rhan 6. Yn mewnosod diffiniad ar gyfer "building envelope", "major renovation" a "nearly zero-energy building" ac yn dileu'r diffiniad o "recommendation report".
43(4)	21	Prawf pwysedd. Yn mewnosod "the Air Tightness Testing and Measurement Association" fel cynllun awdurdodedig newydd.
47	22	Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd. Yn mewnosod cyfeiriad at reoliadau newydd 17A a 25A er mwyn egluro sut y caiff y rheoliad hwn ei gymhwyso.
48(1)	23	Cyflwyno dogfennau'n electronig. Yn mewnosod cyfeiriad at reoliadau newydd 17A a 25A.
Atodlen 3 (Colofn 1)	24(1)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn datgymhwyso hunanardystio simneiau cerrig.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(a)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn rhoi "Certsure LLP" yn lle "Ascertiva Group Ltd" a "ECA Certification Ltd" bob tro y maent yn ymddangos yn yr Atodlen. Gwneir hyn er mwyn adlewyrchu enw cofrestredig newydd y gweithredwyr cynllun ar ôl i'r ddau sefydliad uno.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(b)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn dileu "(in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)" ar ôl "Certsure LLP" bob tro y mae'n ymddangos yn yr Atodlen, fel y'i mewnosodwyd gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) 2012 (2012/718).

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
		Hepgorir y testun dan sylw i gadarnhau effaith y diwygiadau a gyflwynir gan y rheoliadau hyn.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(c)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn rhoi " <i>Building Engineering Services Competence Assessment Ltd</i> " yn lle " <i>Building Engineering Services Competence Accreditation Ltd</i> " bob tro y mae'n ymddangos yn yr Atodlen, er mwyn adlewyrchu newid i'r enw cofrestredig.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(d)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn dileu "(in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)" ar ôl " <i>Building Engineering Services Competent Assessment Ltd</i> " bob tro y mae'n ymddangos yn yr Atodlen fel y'i mewnosodwyd gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) 2012 (2012/718). Hepgorir y testun dan sylw i gadarnhau effaith y diwygiadau a gyflwynir gan y rheoliadau hyn.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(e)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn dileu "Benchmark Certification Ltd (other than in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)" ym mharagraffau 4, 6, 8 a 9. Gwneir hyn er mwyn lleihau'r mathau o waith mae'r gweithredwr cynllun wedi'i awdurdodi i wneud ar hyn o bryd yng Nghymru. Gwnaed hyn ar gais y gweithredwr cynllun.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(f-p)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn ymestyn yr awdurdodiad i nifer o weithredwyr cynlluniau presennol mewn perthynas â mathau o waith nad oedd ganddynt awdurdod i'w

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
		cyflawni yn flaenorol. Gwneir hyn o ganlyniad i wahoddiad am gynlluniau newydd ac ymestyn cynlluniau presennol.
Atodlen 3 (Colofn 2)	24(2)(f-p)	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Er mwyn ymestyn cynlluniau, mae hefyd rhaid dileu “(in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)” fel y'i mewnosodwyd gan Reoliadau Adeiladu etc. (diwygio) 2012 (2012/3119).
Atodlen 3	25	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn dileu paragraff 20. Mân ddiwygiad yw hwn ac fe'i gwneir o ganlyniad i reoliad diwygio 24(1).
Atodlen 3	26	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn cyflwyno tri pharagraff newydd ar gyfer mathau o waith y mae gweithredwyr cynlluniau wedi cael eu hawdurdodi i'w cyflawni. Mae'r rheoliad diwygio hwn hefyd yn awdurdodi nifer o weithredwyr cynlluniau presennol i gyflawni'r mathau newydd o waith.
Atodlen 3 (Colofn 2)	27	Cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn. Yn dileu'r testun canlynol, sef “(in respect of work carried out in England or in relation to excepted energy buildings in Wales)”, fel y'i mewnosodwyd gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) 2012 (2012/718). Hepgorir y testun dan sylw i gadarnhau effaith y diwygiadau a gyflwynir gan y rheoliadau hyn.
Atodlen 4	28	Disgrifiadau o'r gwaith pan na fo'n ofynnol rhoi hysbysiad adeiladu nac adneuo planiau llawn. Yn mewnosod gosod systemau inswleiddio thermol

O.S. 2010/2214 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
		mewn lloriau pren crog.

Atodiad B

Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/747 (Cy.89))

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wneir gan O.S. 2013/747 (Cy.89) i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010:

O.S. 2010/404 Rhif Rheoliad	O.S. 2013/747 (Cy.89) Rhif Rheoliad	Camau Gweithredu
--	29	Diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010. Yn cyflwyno'r diwygiad i'r rheoliadau arolygwyr cymeradwy.
8(1)	30	Swyddogaethau arolygwyr cymeradwy. Yn mewnosod rheoliad newydd 25A yn y rhestr o waith adeiladu y mae'n ofynnol i arolygwyr cymeradwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu 2010.
16	31	Ffurff y dystysgrif derfynol, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod Yn mewnosod gofyniad i dystysgrifau cwblhau gynnwys y geiriad ar eu statws tystiolaethol.
20(1)	32	Cymhwyso rheoliadau 20, 27, 29, 37, 41, 42, 43 a 44 o Reoliadau Adeiladu 2010. Yn mewnosod rheoliad 25A yn y teitl ac o fewn rheoliad 20 o ganlyniad i newid i Reoliadau Adeiladu 2010.
Atodlen 1	33	Atodlen 1 i Reoliadau Arolygwyr Cymeradwy - Ffurflenni. Yn mewnosod geiriad sy'n egluro statws tystiolaethol tystysgrifau terfynol (Ffurflen 5) a thystysgrifau terfynol corff cyhoeddus (Ffurflen 12).

Atodiad C

Deddf Adeiladu 1984

HYSBYSIAD CYMERADWYO DOGFEN AT DDIBEN RHOI CANLLAWIAU YMARFEROL AR OFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010		
<p>Mae Gweinidogion Cymru, drwy'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984, a gaiff eu harfer bellach gan Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)(Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019), yn rhoi hysbysiad drwy hyn eu bod, o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r ddogfen a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r gymeradwyaeth hon yn weithredol fel y rhestrir yn y tabl isod ac eithrio yn achos gwaith sydd heb ddechrau ond yr hysbyswyd corff rheoli adeiladu amdano cyn y dyddiad gweithredol.</p>		
Dogfen	Gofyniad y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen ar eu cyfer	Dyddiad gweithredol
Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy L1A, L1B, L2A a L2B	Rhannau L1(a) a L1(b) o atodlen 1	19 Ebrill 2013